# Adroddiad Gwerthuso Amser i Newid Cymru

## Modiwl Hyfforddiant Gwrth-stigma ar gyfer Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol yng Nghymru - Mai 2023

time to change Wales
let's end mental health discrimination

amser i newid Cymru
rhown ddiwedd ar wahaniaethu ar sail iechyd meddwl

ADFERIAD RECOVERY

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

mind Cymru

# Cyflwyniad

Caiff Amser i Newid Cymru ei chyflwyno gan bartneriaeth o elusennau iechyd meddwl blaenllaw, sef Adferiad Recovery a Mind Cymru. Amser i Newid Cymru yw'r ymgyrch genedlaethol gyntaf sy'n canolbwyntio ar roi diwedd ar y stigma a'r gwahaniaethu a wynebir gan bobl â phroblemau iechyd meddwl. Gyda phroblemau iechyd meddwl yn effeithio ar 1 o bob 4 ohonom yn ystod unrhyw flwyddyn benodol, nod Amser i Newid Cymru yw mynd i'r afael â'r stigma a'r gwahaniaethu drwy fodel cyswllt cymdeithasol, gan annog pobl ledled Cymru i siarad yn agored am eu hiechyd meddwl.

Drwy siarad am ein hiechyd meddwl, gallwn wneud y canlynol:

- atgyfnerthu cydberthnasau â ffrindiau, teulu a chydweithwyr
- cael gwared ar y tabŵ sy'n gysylltiedig â rhywbeth sy'n effeithio ar bawb
- torri'r stereoteipiau a herio'r stigma
- cefnogi pobl wrth iddynt wella.

# Diffiniadau a therminoleg allweddol

### Stigma

Mae stigma yn fath o ragfarn a all osod unigolyn ar wahân i bawb arall ac mae bob amser yn negyddol.

### Iechyd meddwl

Mae iechyd meddwl yn cynnwys ein llesiant emosiynol, seicolegol a chymdeithasol. Mae'n effeithio ar y ffordd rydym yn meddwl, teimlo a gweithredu. Mae hefyd yn helpu i bennu sut rydym yn ymdrin â straen, yn uniaethu ag eraill ac yn gwneud dewisiadau[1].

### Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol

Yn yr adroddiad hwn, mae'r term 'Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol' wedi'i ddefnyddio er mwyn sicrhau cysondeb. Mae Amser i Newid Cymru yn cydnabod cyfyngiadau defnyddio termau megis 'Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol' wrth gyfeirio at bobl o lawer o gefndiroedd ethnig a diwylliannol amrywiol a lle y bo'n bosibl, byddwn yn ceisio ychwanegu manylion ychwanegol.

# Trosolwg

### Ein hamcanion

Cynhaliwyd gwerthusiad meintiol gan dîm Gwerthuso a Pherfformiad Mind er mwyn archwilio'r canlynol:

- Canfyddiadau ar yr hyfforddiant gan hyfforddeion
- Effaith yr hyfforddiant ar hyfforddeion

---

[1] Sefydliad Iechyd y Byd. (2007, Medi). Mental Health: Strengthening Mental Health Promotion. Rhif y daflen ffeithiau 220. Cyrchwyd o: https://www.who.int/en/news-room/fact-sheets/detail/mental-health-strengthening-our-response

### Yr hyn a wnaethom


Gweinyddodd tîm Gwerthuso a Pherfformiad Mind arolwg ar-lein i hyfforddeion ar ôl mynychu'r modiwl hyfforddiant.

Cafodd data yr arolwg eu dadansoddi yn Excel ac mae'r canfyddiadau wedi'u cyflwyno yn yr adroddiad hwn.

Cyfrannodd o leiaf 181 o gyfranogwyr at ddata yr arolwg. Noder, nid oedd y gwerthusiad yn orfodol, ac mae'r data a gyflwynir yn cynrychioli'r rhai hynny a wnaeth y penderfyniad i gymryd rhan yn y gwerthusiad ac nid yw'n cynrychioli pob un o'r rhai hynny a gymerodd ran yn yr hyfforddiant.


Cynhaliwyd yr hyfforddiant rhwng mis Medi 2022 a mis Mawrth 2023 ac amlinellir y canfyddiadau yn yr adrannau canlynol.

# Y bobl a gymerodd ran yn yr hyfforddiant





*(Maint y sampl = 147)*

- Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a oedd yn bresennol yr ystod oedran 45 i 54 oed
- Roedd 3% o'r hyfforddeion o dan 24 oed
- Roedd 2% o'r hyfforddeion yn hŷn na 65 oed
- Roedd y ganran presenoldeb ar gyfer yr ystodau oedran eraill (35-44 a 55-64) wedi'i rhannu yn eithaf hafal.




*(Maint y sampl = 167)*


- Roedd 6% o'r hyfforddeion o gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol.
- Roedd 94% o'r hyfforddeion yn Wyn neu Wyn Prydeinig




*(Maint y sampl = 149)*

**Noder, roedd yr hyfforddeion yn gallu dewis mwy nag un opsiwn, felly ni fydd cyfanswm y canrannau yn 100%*

- Roedd 50% o'r hyfforddeion wedi cael profiad personol o broblemau iechyd meddwl ac roedd 50% yn aelodau o deulu rhywun sydd â phrofiad o broblemau iechyd meddwl.
- Roedd 29% wedi defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl neu yn eu defnyddio ar hyn o bryd.




*(Maint y sampl = 183)*

- Roedd 5% o'r hyfforddeion wedi bod yn gweithio yn GIG Cymru am lai na blwyddyn
- Roedd mwy na thraean (34%) wedi bod yn gweithio yn GIG Cymru ers dros 20 mlynedd
- Roedd gradd cyflog 90% o'r hyfforddeion ym Mand 7 neu is, ac roedd 10% ym Mand 8a ac uwch.

O blith y rhai hynny a gyfrannodd at y data *(n= 163),* roedd canran yr hyfforddeion a oedd yn gweithio i bob un o'r byrddau iechyd fel a ganlyn:

| **Bwrdd Iechyd** | **Canran** |
|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 99% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 1% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 1% |

- Roedd y rhan fwyaf o'r hyfforddeion yn weithwyr meddygol proffesiynol, gyda gweithwyr proffesiynol anfeddygol yn cynnwys y rhai hynny sy'n gweithio ym maes Adnoddau Dynol, gweinyddwyr ac arolygwyr.

Mae'r tabl isod yn dangos canran sut y clywodd yr hyfforddeion am yr hyfforddiant.

| **Sut glywsoch chi am yr hyfforddiant?** | **Canran** |
|---|---|
| Rheolwr | 27% |
| Mewnrwyd | 23% |
| Cydweithiwr | 15% |
| Gwasanaeth Llesiant Staff | 10% |
| Dysgu a Datblygu | 7% |

| | |
|---|---|
| Yr Adran Iechyd Galwedigaethol | 6% |
| Arall (nodwch) | 4% |
| Yr Adran Adnoddau Dynol | 4% |
| Sesiynau Briffio Staff | 3% |
| Cynrychiolydd Undeb Llafur | 1% |

*(Maint y sampl = 177)*


Mae'r tabl canlynol yn dangos sut y gwnaeth yr hyfforddeion ymuno â'r hyfforddiant.

| **Sut y gwnaethoch chi ymuno â'r hyfforddiant?** | **Canran** |
|---|---|
| O bell | 91% |
| Wyneb yn wyneb | 9% |

*(Maint y sampl = 179)*

# Adborth ar yr hyfforddiant


Hygyrchedd yr hyfforddiant a chymhellion dros fynychu.




*(Maint y sampl = 174)*

- Nododd y rhan fwyaf o'r hyfforddeion bod y sesiwn yn **hawdd iawn neu'n eithaf hawdd i'w mynychu** (64%)
- Y rhesymau mwyaf cyffredin o ran pam ei bod yn anodd mynychu'r hyfforddiant oedd: **llwyth gwaith trwm ac yn ei chael hi'n anodd ymrwymo i sesiwn tair awr o hyd.**

## Pam y gwnaethoch fynychu'r hyfforddiant hwn?*




*(Maint y sampl = 178)*

**Noder, roedd yr hyfforddeion yn gallu dewis mwy nag un opsiwn, felly ni fydd cyfanswm y canrannau yn 100%*

- Cafodd y rhan fwyaf (67%) yr hyfforddiant i feithrin eu sgiliau a'u gwybodaeth yn y maes
- Mynychodd 58% yn sgil eu hanghenion datblygiad personol

### Gwybodaeth Cyn yr Hyfforddiant

Gofynnwyd i'r hyfforddeion i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau am wybodaeth a gafwyd cyn yr hyfforddiant. Ceir amlinelliad o'r canfyddiadau isod.

- Roedd 90% o'r hyfforddeion yn cytuno'n gryf fod y wybodaeth a gafwyd cyn yr hyfforddiant yn **rhoi disgrifiad cywir o bwrpas yr hyfforddiant** ac wedi eu galluogi i ymuno ar y diwrnod

| | **Cytuno'n Gryf / cytuno** | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | **Anghytuno 'n Gryf / Anghytuno** | **Ddim yn gwybod / Methu â Dweud** |
|---|---|---|---|---|
| Roedd y wybodaeth a gefais cyn yr hyfforddiant yn rhoi disgrifiad cywir o bwrpas y sesiwn<br>*(Maint y sampl = 176)* | **90%** | 4% | 4% | 2% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cefais ddigon o wybodaeth cyn yr hyfforddiant i fy ngalluogi i ymuno/mynychu ar y diwrnod<br><br>*(Maint y sampl = 174)* | **91%** | 3% | 4% | 1% |

# Sgorio'r Hyfforddiant


Gofynnwyd i'r hyfforddeion sgorio agweddau gwahanol ar yr hyfforddiant, gan gynnwys deunyddiau'r
hyfforddiant a gwybodaeth yr hyfforddwyr am y pwnc. Ceir amlinelliad o'r canfyddiadau isod:

| | Da iawn / da | Cymedrol | Gwael / gwael iawn | Ddim yn gwybod / Methu â Dweud |
|---|---|---|---|---|
| Y deunyddiau hyfforddiant a ddefnyddiwyd yn ystod yr hyfforddiant (e.e., sleidiau) *(Maint y sampl = 176)* | **97%** | 2% | 1% | 0% |
| Ymarferoldeb y llwyfan a ddefnyddiwyd ar gyfer yr hyfforddiant (e.e., Zoom, Microsoft Teams) (e.e., ansawdd y sain/ cysylltiad/ fideo) *(Maint y sampl = 160)* | **94%** | 5% | 1% | 0% |
| Gwybodaeth yr hyfforddwr am y pwnc *(Maint y sampl = 175)* | **99%** | 1% | 0% | 0% |
| Sgiliau cyflwyno a chyfathrebu'r hyfforddwr *(Maint y sampl = 174)* | **99%** | 1% | 0% | 0% |

- Nododd 99% o'r hyfforddeion fod **gwybodaeth yr hyfforddwr am y pwnc yn dda iawn/ da**
- Nododd 99% fod **sgiliau cyflwyno a chyfathrebu'r hyfforddwr yn dda iawn/ da**
- Ar y cyfan, roedd yn amlwg mai'r Swyddogion Ymgysylltu Cymunedol oedd uchafbwynt yr hyfforddiant


## Cynnwys yr hyfforddiant

Gofynnwyd cwestiynau i'r hyfforddeion ynghylch cynnwys yr hyfforddiant, gan gynnwys pa mor berthnasol oedd y sesiwn i'w rolau. Ceir amlinelliad o'r canfyddiadau isod.




*(Maint y sampl = 175)*

- Roedd y rhan fwyaf o'r hyfforddeion (96%) o'r farn bod cynnwys yr rolau/gweithle




*(Maint y sampl = 175)*

- Roedd y rhan fwyaf (99%) hefyd o'r farn bod yr **hyfforddiant wedi egluro rôl proffesiynol** o ran lleihau stigma

Yr agweddau **mwyaf defnyddiol** ar yr a nodwyd gan yr

1) **Senarios/syniadau profiad**

2) **Trafodaethau**

3)

*(Maint y sampl = 139)*

Yr agweddau **lleiaf defnyddiol** ar yr hyfforddiant a nodwyd gan yr hyfforddeion oedd:


**1) Hyd y sesiwn hyfforddiant 2)Anawsterau technegol wrth ymuno**

**3) Cael fy newis i ateb**

*(Maint y sampl = 71)*

# Gwybodaeth cyn ac ar ôl yr hyfforddiant


Noder, dim ond yr ymatebion lle y gwnaeth yr un ymatebydd ateb y cwestiynau cyn ac ar ôl yr hyfforddiant a gafodd eu cynnwys yn y dadansoddiad hwn.




*(Maint y sampl = 168)*

Gwellodd **gwybodaeth** yr hyfforddeion am effaith **stigma** ar iechyd meddwl eu cleifion ar ôl cael yr hyfforddiant. Gwelwyd y gwahaniaeth mwyaf


wrth i dros hanner yr hyfforddeion nodi bod eu dealltwriaeth yn dda iawn ar ôl cael yr hyfforddiant, ond cyn yr hyfforddiant dim ond 10% o'r hyfforddeion a nododd bod eu dealltwriaeth yn dda iawn.




*(Maint y sampl = 166)*

- Nododd yr hyfforddeion bod eu **hadnoddau/technegau i leihau stigma ymysg wedi** ar ôl cael yr hyfforddiant, gyda'r hyfforddeion yn dod yn fwy hyderus yn gyffredinol


Pa mor hyderus oeddech chi/ydych chi yn teimlo y gallwch adnabod ymddygiad stigmateiddio?




*(Maint y sampl = 169)*

- Cyn cael yr hyfforddiant, dim ond 7% o bobl oedd yn teimlo'n hyderus iawn wrth adnabod arwyddion stigmateiddio. Ar ôl yr hyfforddiant, roedd **bron i** hyfforddeion (47%) yn teimlo'n **hyderus iawn** wrth **adnabod** arwyddion

Pa mor hyderus oeddech chi/ydych chi yn teimlo wrth gefnogi claf yn effeithiol mewn ffordd nad yw'n stigmateiddio?





*(Maint y sampl = 170)*

- Hefyd, roedd canran uwch o hyfforddeion yn teimlo'n **fwy hyderus wrth gefnogi cleifion yn effeithiol mewn ffordd nad yw'n stigmateiddio** ar ôl cael yr hyfforddiant, gyda 90% ohonynt yn nodi eu bod naill ai yn teimlo'n eithaf hyderus neu yn hyderus iawn ar ôl cael yr hyfforddiant.

# Argymell yr hyfforddiant

Gofynnwyd i'r hyfforddeion pa mor debygol ydynt o argymell yr hyfforddiant, ac i roi sgôr o 1 i 10. Ceir amlinelliad o'r canfyddiadau isod.




*(Maint y sampl = 168)*

- Nododd 98% o'r hyfforddeion y byddent yn debygol iawn/debygol o argymell yr hyfforddiant i gydweithiwr.

**Rhoddodd yr hyfforddeion sgôr o 9.4 / 10 i'r hyfforddiant ar gyfartaledd** (*n*=168)

Diolch am ddarllen yr adroddiad hwn. Os bydd gennych ragor o gwestiynau, anfonwch e-bost i research@mind.org.uk